Cofion a Chyfarchion

Yn ein gweddïau heddiw mae Dwynwen Davies (Nantglyn) a Trebor Roberts (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a pharhawn hefyd i gofio am Eurgain Pierce (Llannefydd) sydd yn yr Inffirmari, ac am Merfyn Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Clatterbridge. Anfonwn ein cofion cynhesaf atynt gan weddïo eu bod yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu. Yr un modd, dymunwn wellhad buan iawn i Rheon Evans (Saron) gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar, a chofiwn hefyd am Magi ac Anni Jones (Nantglyn) dreuliodd noson yn yr ysbyty yr wythnos ddiwethaf. Diolchwn amdanynt ac am bob gofal a gafodd y ddwy. Cyflwynwn bob un o'r cleifion a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd, gan ddiolch am y sicrwydd ei fod yn gwrando'n gweddïau.

Parhawn i gofio hefyd am y teuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddïwn eu bod yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

Llongyfarchiadau (hwyr!) i Lois a Lewis Hughes-Jones (Llansannan) ar enedigaeth Llywelyn, brawd bach i Gruffydd. Dymunwn fendith Duw arnynt fel teulu.

Cyrsiau Coleg y Bala

⇒ **Clwb Hydref** (Gwersyll i blant 8-11 oed) yng Ngholeg y Bala o Hydref 30ain– 31ain, (dydd Llun a dydd Mawrth hanner tymor). Cyfle i dreulio amser yng nghwmni ffrindiau hen a newydd yn dysgu am Iesu, a bydd lot fawr o gemau, crefft, nofio, canu, ymlacio yn y stafell chwaraeon a pharti ar y nos Lun. Cost y deuddydd yw £45 *(gweler isod)*.

⇒ **Cwrs Ieuenctid (oed uwchradd Bl.7-10)** yng Ngholeg y Bala ar 3ydd – 5ed o Dachwedd (penwythnos olaf yr hanner tymor). Fe fydd y penwythnos yn llawn gweithgareddau, nofio, *inflatables*, crefft, gemau a sgyrsiau o'r Beibl. Cost: £69 *(gweler isod)*.

** Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sy'n byw o fewn dalgylch yr Ofalaeth sydd am fynychu, ac mai hanner y pris yw'r gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu sy'n cynnwys bwyd, llety a'r holl weithgareddau. I archebu lle, ewch i: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg neu ffoniwch 01678 520565. Am fwy o wybodaeth, ebostiwch colegybala@ebcpcw.cymru neu anfonwch neges ar Facebook neu Instagram.*

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (8fed), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29 Hydref 2023

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Newyddion da i bobl dlawd!

Mae cynnydd mawr wedi bod yn y defnydd o 'fanciau bwyd' yn ein gwlad. Mannau ydi'r rhain lle gellir cael bwyd pan mae gwir argyfwng yn codi. Sefydlwyd rhai mewn amryw o ardaloedd dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n destun gofid gweld pobl ein gwlad yn gorfod dibynnu ar fanc bwyd i gael dau ben llinyn ynghyd. Mae mwy nag erioed yn eu defnyddio y dyddiau hyn. Amod derbyn bwyd ydi cael gair gan berson cydnabyddedig megis meddyg, gweithiwr cymdeithasol neu berson awdurdodedig arall sy'n cadarnhau'r angen amdano. Neu gallwch fynd i'r banc bwyd i geisio cymorth ac arweiniad. Bu un wraig yn adrodd ei phrofiad o orfod mynd i'r banc bwyd. Roedd yn deimlad anghyfforddus y tro cyntaf meddai ond fod y gofal a'r croeso a dderbyniodd wedi lleddfu ei hofn a'i phryder. Diolchwn fod rhai wedi mynd ati i sefydlu llefydd o'r fath mewn cyfnod o wasgfa ariannol. Wrth i ni wynebu tymor oer y gaeaf a'r Nadolig bydd mwy a mwy angen y banciau hyn.

Cofiwn hefyd fod yr efengyl Gristnogol wedi ei sefydlu gan Dduw'r Tad Nefol am ei fod yn gweld angen arnom ni. Cofiwn eiriau Iesu "Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd … Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon." (Mathew 5:3-6) Dod a derbyn gras Duw ydi'r amod er cael ein digoni a'n cysuro gyda meddiannau teyrnas Dduw. Tristwch y sefyllfa ydi fod rhai o hyd yn ei chael yn anodd dod oherwydd fod balchder yn eu rhwystro i gydnabod angen am faddeuant a chynhaliaeth Duw. Teimlad o annheilyngdod sy'n cadw eraill draw. Clywch eiriau yr Arglwydd trwy'r Proffwyd Eseia, "Dewch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; dewch, er eich bod heb arian; prynwch a bwytewch. Dewch, prynwch win a llaeth, heb arian a heb dâl." Eto clywch ei wahoddiad trwy ei Fab, Iesu Grist. "Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi." (Mathew 11:28-29) Meddai Iesu wrthynt, "Myfi yw bara'r bywyd. Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi, ac ni bydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi. (Ioan 6:35)

Dim ond dod a derbyn yn ddiolchgar sydd raid inni. Dyna ydi newyddion da!

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Hydref 29ain

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. W. Bryn Williams. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10:15.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob prynhawn Sul arall).

Dydd Gwener, Tachwedd 3ydd

- **Paned a Sgwrs** yng Nghapel Llannefydd am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Tachwedd 5ed

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa i'r Daith (Llannefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) yn Henllan** am 10:30 o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 9:30.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson.

Dydd Llun, Tachwedd 6ed

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Doethineb i'r Dydd' am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. *(Manylion mewngofnodi:* https://us02web.zoom.us/j/82697406470?pwd=aThkKohEUlFKTXFoMU8zL00zV1FDZz09 neu deialwch 01314 601196 i ymuno ar y ffôn. *Meeting ID:* 826 9740 6470 *Passcode*: 901953*)* Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Mawrth, Tachwedd 7fed

- **Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan** am 1:30 y prynhawn. Edrychwn ymlaen i gael cwmni Tracy Pierce o Hedgehog Help, Prestatyn. Croeso cynnes i bawb.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Festri Capel Coffa Henry Rees, Llansannan am 7:30 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Iau, Tachwedd 9fed

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn.

Dydd Sul, Tachwedd 12fed

- **Cyfarfod Gweddi yn Llansannan** am 10:00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg. Bydd Gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofeb am 11:00.
- **Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10:00** ac **yng Nghefn Meiriadog** am 10:30.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones. Bydd Ysgol Sul yn Groes yn dilyn yr oedfa.

Rhaghysbys

- **Cynhadledd i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd 2024** yng Nghapel Emaus, Lôn Cariadon, Bangor LL57 2TE dydd Mercher, Tachwedd 15fed o 10:00 y bore hyd 1:00 y pnawn.

Pecyn Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2024

Erbyn hyn, fe ddylai pob eglwys fod wedi derbyn pecyn gwybodaeth i baratoi ar gyfer Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2024 sydd wedi ei baratoi gan Chwiorydd Cristnogol Palesteina. Er mwyn lleihau'r costau postio, byddai'n help mawr petaech yn archebu'r deunydd fydd ei angen arnoch i gynnal y Gwasanaeth yn eich eglwys ym mis Mawrth 2024 erbyn **dydd Mercher, Tachwedd 8fed**, os gwelwch yn dda, gan nodi ar y daflen y bydd rhywun o Eglwysi Bro Aled yn casglu'r deunydd ar eich rhan. (A fyddwch cystal â gadael i Mair wybod hynny hefyd, os gwelwch yn dda?) Os nad ydych wedi derbyn ffurflen i archebu'r deunydd, eto, plîs cysylltwch â Mair.

C.I.C. / C.I.C.+

Mae ambell un ohonoch wedi sôn y byddech yn gwerthfawrogi petai modd ailgychwyn C.I.C. (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ym Mro Aled ar gyfer ieuenctid oedran ysgol uwchradd. Os bydd modd i ni gynnal y sesiynau yn hwyr y pnawn neu'n gynnar ar fin nos Iau, rydym yn falch o gyhoeddi bod Sion Morris (sy'n Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Cymru), yn hapus i arwain y sesiynau gan ei fod eisoes yn Llansannan yn cynnal Clwb Plant ar bnawn Iau. Felly, a wnewch chi adael i Mair wybod **erbyn dydd Mawrth, Tachwedd 7fed** pwy fyddai gan ddiddordeb i ymuno, os gwelwch yn dda, fel y gallwn drafod yr amser mwyaf cyfleus i gynnal y Clwb ac er mwyn gallu symud ymlaen gyda gweddill y trefniadau? Byddai croeso mawr i ffrindiau nad ydynt yn byw ym Mro Aled hefyd i ymuno, a bydd cyfleon achlysurol i fynd ar gyrsiau i Goleg y Bala. (Os oes rhai oedolion fyddai'n barod i helpu yn gyson neu ar dro, byddai Mair yn ddiolchgar iawn o glywed gennych chithau hefyd.) Diolch.